# Creu plastig allan o startsh tatws

O: rsc.li/4frZ58l

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

# Yn ystod y sesiwn

- Dysgu sut mae bioblastigau yn cynnig dewis amgen yn lle plastigau sydd wedi'u creu o olew crai.

- Creu bioblastig a thrafod manteision ac anfanteision plastigau sydd wedi'u creu o ddeunyddiau adnewyddadwy, fel bwyd.



## Amdana i

Cyflwyniad byr

## Ble rwy'n gweithio

Enw'r cwmni a'r hyn rydw i'n ei wneud

## Pam ydw i'n gwneud hyn

Beth yw effaith yr hyn rydw i'n ei wneud, beth ysbrydolodd fi i ddewis fy ngyrfa a beth rydw i'n ei fwynhau amdani

Ychwanegwch lun sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n ei wneud



# ‘Mae cemeg yn siapio’r dyfodol’



© NotPla

‘Mae prosiect rydw i’n gweithio arno yn defnyddio deunydd pacio sydd wedi’i greu o gyfuniad o wymon a phlanhigion. Mae’n gallu dal diodydd fel dŵr, sudd, alcohol neu bupur a halen ac ati. Mae'n hollol fwytadwy ac mae’n gallu diraddio mewn 4-6 wythnos.’

**Océane, fferyllydd ymchwil a datblygu yn NotPla**



© Florence Gschwend

‘Rydyn ni wedi datblygu proses gemegol gynaliadwy, sy’n isel o ran cost sy’n trosi adnoddau adnewyddadwy fel pren a bagasse siwgr cansen (deunydd ffibrog sy’n cael ei adael ar ôl yn y broses o gynaeafu siwgr cansen) yn gemegau a chynhyrchion fel (bio)blastig.’

**Florence, cyd-sylfaenydd y cwmni, Lixea**

O broffiliau swyddi *A future in chemistry* y Gymdeithas Gemeg Frenhinol: edu.rsc.org/job-profiles/

# Pa un sy'n dadelfennu gyflymaf?



A



B



C



CH



D



DD



E




F

Ffynhonnell: Her Blastigau Practical Action

# Pa un sy'n dadelfennu gyflymaf?

| 1 mis | 6 wythnos | 2 fis | Blwyddyn | 20 mlynedd | 50 mlynedd | 450 mlynedd | 1000 o flynyddoedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CH | F | DD | D | A | E | B | C |



Y cyflymaf i ddadelfennu → Yr arafaf i ddadelfennu

Ffynhonnell: Her Blastigau Practical Action

# I ble mae'n mynd?

- Mae tua 5000 o eitemau o lygredd plastig wedi'u canfod am bob milltir o draeth yng ngwledydd Prydain.
- Mae cartrefi yng ngwledydd Prydain yn taflu 1.7 biliwn o ddarnau o blastig – bob wythnos.
- Mae tua hanner y plastig a gynhyrchir yn blastig untro.



Ffynhonnell: Pixabay

Ffynhonnell: Our World in Data, Statista, Greenpeace (yn gywir yn 2024)

# Beth sy'n digwydd i'n gwastraff plastig yng ngwledydd Prydain?

- 11% yn cael ei gladdu
- 14% yn cael ei allforio
- 17% yn cael ei ailgylchu
- 58% yn cael ei losgi

Ffynhonnell: Y Cyfrif Plastig Mawr 2024



Ffynhonnell: Pixabay

# Tuag at fwy o blastigau cynaliadwy

- Mae'r rhan fwyaf o'r plastig rydyn ni'n ei ddefnyddio yn deillio o olew crai (ddim yn adnewyddadwy) ac mae'n cymryd amser hir i ddiraddio.
- Polymerau sy'n cael eu defnyddio i greu cynnyrch masnachol o ffynhonnell naturiol neu adnodd adnewyddadwy yw bioblastigau.




Ffynhonnell: Pixabay

- Mae bioblastigau sydd wedi'u gwneud o ffrwythau neu lysiau yn diraddio'n llawer cyflymach, ac os ydyn nhw'n cyrraedd yr amgylchedd, maen nhw'n llawer llai peryglus.

# Creu plastig allan o startsh tatws – offer

- Dŵr
- Startsh tatws
- Glyserin llysiau
- Finegr
- Llwy de
- Llwy fwrdd
- Powlen
- Sbatwla
- Padell
- Lliw bwyd (dewisol)
- Stôf
- Papur gwrthsaim
- Ffoil tun



© Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

# Diogelwch a pheryglon

- Cofiwch ddiogelu eich llygaid (gyda sbectol ddiogelwch neu gogls) bob amser.
- Byddwch yn ofalus wrth drin y plât poeth / padell a gadewch iddyn nhw oeri cyn eu trin.
- Mae’r gymysgedd yn gallu llosgi gan ei fod yn mynd yn boeth iawn.
- Gall biceri a rhodenni gwydr eich llosgi a malu.
- Peidiwch â gadael i’r gymysgedd ferwi'n sych.
- Peidiwch â defnyddio mwy na’r symiau a nodir yn y dull.
- Peidiwch â bwyta plastig tatws.


© Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

# Dull

1. Mesurwch un llwy fwrdd lefel o startsh tatws.



2. Ychwanegwch saith llwy fwrdd o ddŵr a chymysgwch mewn powlen.



3. Ychwanegwch ddwy lwy de o finegr.




4. Ychwanegwch ddwy lwy de o glyserin (a dau ddiferyn o liw bwyd, dewisol), yna cymysgwch.




© Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

# Dull (rhan 2)

5. Arllwyswch i sosban dros wres canolig i uchel gan ei droi'n barhaus.



6. Cymysgwch gyda sbatwla plastig nes bod y gymysgedd yn tewhau (2-5 munud).



7. Pan fydd yn ymdebygu i jeli, arllwyswch ar bapur gwrthsaim gyda ffoil oddi tano.



Peidiwch â gadael i'r gymysgedd ferwi'n sych

8. Defnyddiwch y sbatwla i ledaenu'r gymysgedd i tua 8 modfedd mewn diamedr.



Ceisiwch gael yr un trwch drwyddo


© Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

# Dull (rhan 3)

9. Gadewch iddo sychu am 7-14 diwrnod, yn dibynnu ar ba mor drwchus wnaethoch chi daenu'r plastig tatws.




Diwrnod 5



Diwrnod 10

- Beth fyddai'r defnydd gorau ar gyfer y plastigau hyn?
- Allwch chi feddwl am fanteision ac anfanteision ar gyfer bioblastigau?

© Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol




Ewch i *A future in chemistry*: edu.rsc.org/future-in-chemistry/

# Gêm: dewch o hyd i'ch rôl wrth drwsio'r dyfodol




Scan to play

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Chwaraewch y gêm: edu.rsc.org/future-in-chemistry/game